# CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

## ADEILADU TWMPATHAU FFORDD NEWYDD – AMRYW LEOLIADAU, LLANELLI

**HYSBYSIR TRWY HYN** fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel 'y Cyngor' o hyn ymlaen), drwy arfer y pwerau a roddir gan Adran 90A o Ddeddf Priffyrdd 1980 (y cyfeirir ati fel 'y Ddeddf' o hyn ymlaen) a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu a'r cyrff neu'r personau hynny a bennir gan Reoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffyrdd) 1999 (y cyfeirir atynt fel 'y Rheoliadau' o hyn ymlaen) yn unol ag Adran 90C(1) o'r Ddeddf, ac yn unol ag Adrannau 90C(2) a 90C(3) o'r Ddeddf, yn bwriadu adeiladu twmpathau ffordd ar ffurf twmpath arafu estynedig mewn amryw leoliadau yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin.

Disgrifir lleoliad pob twmpath ffordd yn fwy penodol yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn ac fe'u dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm wrth yr Hysbysiad hwn.

Disgrifir dau fath o dwmpath ffordd yn yr Atodlen:

- twmpath arafu estynedig, sy'n ymestyn ar draws lled llawn y ffordd gerbydau, a fydd yn 3000 milimetr (3 metr) o hyd; a
- twmpath arafu estynedig, sy'n ymestyn ar draws lled llawn y ffordd gerbydau, a fydd yn 6000 milimetr (6 metr) o hyd.

Bydd y ddau fath o dwmpath ffordd yn mesur 75 milimetr o uchder, yn unol â'r amrywiadau a ganiateir yn y Rheoliadau (lle na fydd twmpath yn fwy na 100 milimetr o uchder).

Gellir gweld manylion llawn y cynnig, ynghyd â chynllun a datganiad o resymau'r Cyngor dros geisio cyflwyno'r mesurau fertigol hyn, yn swyddfa HWB Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn Rhif 36, Stryd Stepney, Llanelli SA15 3TR yn ystod oriau swyddfa arferol.

Mae'r dogfennau hefyd:

- i'w gweld ar wefan y Cyngor drwy fynd i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/hysbysiadau-cyhoeddus; neu

- ar gael am ddim drwy ysgrifennu at y Rheolwr Gwasanaethau Dylunio Proffesiynol yn Adeilad 2, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ neu drwy e-bostio RheoliTraffig@sirgar.gov.uk.

Os ydych am wrthwynebu'r cynnig uchod, gofynnir i chi gyflwyno eich rhesymau dros wrthwynebu yn ysgrifenedig:

- drwy'r post – at Bennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP; neu

- drwy e-bost - at HeMDavies@sirgar.gov.uk,

erbyn yr **22ain o Orffennaf 2026**, gan nodi cyfeirnod y ffeil isod. Rhaid i bob gwrthwynebiad neu sylw arall nodi ar ba sail y mae'n cael ei wneud.

*Cofiwch, gall yr holl lythyrau a dderbynnir gael eu hystyried yn gyhoeddus gan y Cyngor a gallai'r cyhoedd weld cynnwys y llythyrau, ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n llunio'r llythyr.*

**Dyddiedig y 1af o Orffennaf 2026.**

Cyfeirnod y Ffeil: HMD/HTTR-2070
Llinell Uniongyrchol: 01267 224066
E-bost: HeMDavies@sirgar.gov.uk

WENDY WALTERS
Y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin

**YR ATODLEN**

| Math | Lleoliad |
|---|---|
| **Twmpath Arafu Estynedig sy'n 3000 milimetr (3 metr) o hyd** | ▪ **The Mariners (Ffordd yr W5112)** Ger yr eiddo o'r enw Rhif 1 The Mariners.<br><br>▪ **Stryd y Môr (Ffordd yr C2505)** Ger yr eiddo o'r enw Rhif 9b Teras Bryn.<br><br>▪ **Clos Dewi Sant (Ffordd yr W5553)** Ger yr eiddo o'r enw Rhif 21 Clos Dewi Sant.<br><br>▪ **Clos Glanmor** Ger yr eiddo o'r enw Rhif 1 Clos Glanmor. |
| **Twmpath Arafu Estynedig sy'n 6000 milimetr (6 metr) o hyd** | ▪ **Stryd y Môr (Ffordd yr C2505)** Ger yr eiddo o'r enw Rhif 36 Stryd y Môr.<br><br>▪ **Clos Dewi Sant (Ffordd yr W5553)** Ger yr eiddo o'r enw Rhif 6 Clos Dewi Sant. |